COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Medi 12fed, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 18fed, 2018 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

   Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C18/0714/39/LL	Estyniadau unllawr ochr a chefn – Bryn Melyn, Mynytho **– Cefnogir**
C18/0716/39/LL	Codi porth, estyniad modurdy a ffenestri gromen blaen – Wheelhouse, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/0774/39/LL	Estyniad unllawr ochr yn cynnwys newidiadau i'r wal derfyn – Island View, Aber-soch **– Cefnogir**

   Anfonwyd y sylwadau a ganlyn yn ystod mis Awst – fe'u trafodwyd gan yr Is-bwyllgor Cynllunio:

C18/0602/39/LL	Adeiladu porth i'r blaen – 2 Tan y Gaer, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/0633/39/CC	Tocio coeden mewn Ardal Gadwraeth – Bodengan, Llanengan **[Derbyniwyd dyfarniad eisoes – Caniatawyd yn ddi-amodol]**

C18/0650/39/LL	Mân newidiadau i'r prif edrychiad, ailadeiladu strwythur 'lean to' i'r ochr, trosi modurdy i ffurfio rhan o'r tŷ ac ychwanegu ffenestr gromen i'r edrychiad cefn – Talfor, Mynytho **– Cefnogir**
C18/0677/39/LL	Estyniad unllawr – Tŷ Newydd, Mynytho **– Cefnogir**
C18/0696/39/LL	Estyniad deulawr ochr – Tŷ Uchaf, Mynytho – **Cefnogir**
C18/0713/39/LL	Estyniad deulawr ochr â ffenestr gromen, estyniad deulawr cefn, estyniad unllawr blaen â balconi uwchben ac addasiadau allanol i ffenestri – Pen y Gwaith Cottage, Machros, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad sylweddol o 'fwthyn' hanesyddol yn AHNE Llŷn ac ar gyrion Llwybr yr Arfordir**
C18/0715/39/LL	Estyniad deulawr gromen, ffenestr gromen a balconi i'r blaen ac estyniad unllawr blaen i'r modurdy presennol ac addasiadau allanol i'r eiddo – 68 Cae Du, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad o safle cyfyng, anghymarus â'r tai yn yn yr un rhes ac y buasai'n goredrych cymdogion [Datgan Diddordeb – Clerc]**
C18/0718/39/LL	Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C17/1161/39/LL er diwygio dyfnder y balconi o 1.5 medr i 2.5 medr – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch **– Cedwir at yr un sylwadau a gyflwynwyd â'r ceisiadau blaenorol, sef gwrthwynebir oherwydd fod y balconi'n goredrych cymdogion ac mae'n sylweddol fwy na'r un yn y cais gwreiddiol**

5. **CYFETHOL AELODAU I WARDIAU ABER-SOCH A LLANENGAN**

Yn anffodus, tynnodd yr un a ddangosodd ddiddordeb yn sedd Ward Aber-soch ei henw'n ôl heddiw. Derbyniwyd tri enw ar gyfer Ward Llanengan a chyfetholwyd Mr. G. Ian Evans – hysbysir y tri o'r penderfyniad. Penderfynwyd parhau i arddangos y Rhybudd o Gyfethol am bythefnos arall a hysbysu'r ddau ymgeisydd aflwyddiannus yn Ward Llanengan o'r bwriad.

6. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) Cysylltodd Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, i ddweud y dechreuwyd cyflwyno cais am nawdd i dreialu system codi ffi/cyfraniadau yn nhoiledau'r Cyngor a chynigiwyd un Ger-y-Bont, Aber-soch, gan eu bod yn rhai prysur ac ar agor drwy'r flwyddyn yng nghanol y pentref; cytunwyd â hynny.

ii) Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth oddi wrth Dîm Gwarchod y Cyhoedd na'r Gwasanaeth Cynllunio parthed toiledau caffi Marchros.

iii) Gosodwyd darnau newydd yn y toiledau, yn dilyn ymweliad peiriannydd Healthmatic a bu'n rhaid archebu darn i ddrws y dynion, gan nad oedd yn cau yn iawn (gweler cofnod 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

b) **Meddygfa Aber-soch**

i) Ni ddychwela Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol, i'w waith tan Hydref 8fed – gohiriwyd ei driniaeth lawfeddygol. Derbyniwyd dyddiadau oddi wrth ei ysgrifenyddes a phenderfynwyd derbyn un ai dyddiau Mercher, Hydref 17eg neu'r 24ain.

ii) Mynegwyd pryder fod Fferyllfa Aber-soch wedi cau ddeuddydd yr wythnos diwethaf oherwydd nad oedd Fferyllydd ar gael – mae'n dorcyfraith agor y siop heb un yn bresennol oherwydd y cyffuriau; cysylltir â Chyngor Iechyd

Cymuned Gogledd Cymru a chwmni Rowlands i fynegi pryder, gan nad yw'r tro cyntaf i hyn ddigwydd.

c) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***
Ni lwyddwyd dosbarthu'r pecynau o amgylch Aber-soch cyn gwyliau'r haf.

ch) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru: vi) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref**
Derbyniwyd copi o Ganfyddiadau ac Argymhellion Amlinellol yr Adolygiad Annibynnol ond, ni chafwyd cyfle i'w ddarllen. Deallwyd yr argymhellir y dylai Cynghorwyr fod yn aelodau etholiedig a bod pecyn craidd hyfforddiant mandadol yn orfodol ac y dylai bob Clerc feddu ar gymhwyster proffesiynol i'w penodi o restr genedlaethol cymeradwy – atodir copi â'r cofnodion er gwybodaeth.

d) **10. Gohebiaeth: b) Siôn Gwilym – Mapio'ch Cyngor**
Ni lwyddwyd argraffu copi o'r map na'i anfon at y Cynghorwyr sydd â chyfrifiadur.

7. **MYNWENT**

a) **Barbio Clawdd Terfyn y Bwlch**
Derbyniwyd yr anfoneb am y gwaith uchod, ynghyd ag am dorri'r gwellt am y tymor – gweler 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

b) **Cais am Osod Mainc**
Derbyniwyd cais oddi wrth deulu sydd ag aelod wedi'i gladdu yn y fynwent i osod mainc dderw ger ei fedd – nid oes lle i gladdu neb arall yn y rhes. Crybwyllwyd bod posibilrwydd y gellid derbyn cais arall hefyd a mynegwyd nad oes eisiau gormod – un sydd yn yr hen fynwent; penderfynwyd caniatáu.

8. **CAEAU CHWARAE**

a) **Archeb Archwiliad Blynyddol**
Derbyniwyd yr adroddiad a thynnwyd sylw at y siglenni yn y ddau gau ond, yn anffodus, ni osododd G.L. Jones y darnau a archebwyd ym mis Mehefin cyn yr archwiliad. Ymddiheurwyd nad osodwyd hwy a gofynnwyd am gopi o'r adroddiad rhag ofn y tynnwyd sylw at rywbeth arall – fe'i anfonwyd ond, ni dderbyniwyd ymateb na gwybodaeth os gosodwyd y darnau – cysylltir eto. Gweithredir ar y materion eraill a nodir cyn gynted â phosibl.

Cafwyd sgwrs am wirfoddolwyr gan gynrychiolydd cwmni yswiriant Came & Company yng nghynhadledd SLCC yn Llandudno yr wythnos diwethaf, gan y cyfrifir hwy, yn ôl Deddf 2006, yn gyflogai.

b) **Cynrychiolwyr Cwmnïau/Amcanbrisiau Offer**
Trefnir cyfarfod o'r Is-bwyllgor cyn cyfarfod mis Hydref. Disgwylir amcanbris oddi wrth cwmni Hugs Nets – cafwyd sgwrs â chynrychiolydd y cwmni yn Llandudno – am byramid dringo.

c) **Paentio'r Offer**
Paentiwyd yr offer sglefrfyrddio cyn yr archwiliad; ni dderbyniwyd anfoneb am y gwaith.

9. **CYFRIFON**

a) **Un Llais Cymru – Paratoi Cyllideb 2018 – 2019 – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

- Cafwyd cyflwyniad gan Is-gadeirydd ac aelod o'r Panel uchod yn y gynhadledd; dylai pob cynghorydd anfon gair neu lenwi ffurflen yn ymwrthod rhan neu'r cyfan o'r gydnabyddiaeth £150.00 yny cyfarfod blynyddol ond, os derbynnir o, rhaid i'r taliad fynd trwy system Talu Wrth Ennill Cyflogres y Cyngor. Adroddwyd y cyhoeddir yr ymgynghoriad drafft ym mis Hydref fel y gellir ei drafod wrth baratoi cyllideb y flwyddyn ariannol nesaf.
- Derbyniwyd ffurflen i gyhoeddi'r taliadau a wneir i aelodau (Cronfa'r Cadeirydd) yn unol ag Atodiad 4 Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer 2016 – 2017; rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon cyn Medi 30ain.

b) **Cyflog y Clerc**

Diolchodd y Clerc am y codiad cyflog a'r ôl-daliad o Ebrill 1af eleni, yn unol â'r dyfarniad cenedlaethol.

c) **Archwiliad Ariannol – Allanol 2017 – 2018**

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth BDO yn gofyn am fwy o wybodaeth at yr hyn a anfonwyd â'r ffurflen – ymatebwyd i rai ohonynt ond, bydd angen sgwrs ffôn i ddeall yn union beth a fynnir a chysylltu â'r Archwilwyr Mewnol i wirio un neu ddau o bethau hefyd. Cwynir yn arw am BDO; deallwyd mai cyfrifwyr dan hyfforddiant sy'n gwneud y gwaith ac nad ydynt yn mynd trwy'r ddogfennaeth a dderbyniwyd. Bydd rhaid cynnal cyfarfod arbennig cyn diwedd y mis i gadarnhau'r archwiliad.

ch) **Wayleave Cyn-westy'r Harbwr, Aber-soch**

Gan na dderbyniwyd yr ad-daliad a addawodd ScottishPower ar gyfer yr uchod ar Fehefin 28ain, cysylltwyd eto – ymddiheurwyd a threfnir iddo gael ei dalu ym mis Hydref (taliadau nesaf) a chynyddodd ychydig i £3.41; telir £1.19 bob mis Ionawr wedyn.

d) **Adnewyddu Yswiriant y Cyngor**

Derbyniwyd y ddogfennaeth a'r anfoneb am £680.88 (gweler 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod) ar gyfer yr adnewyddu ar Fedi 15fed ond, disgwylir ymateb i'r cais os bydd angen tâl ychwanegol am ychwanegu eitemau'r gofrestr asedau ddiwygiedig, yn unol ag argymhelliad yr Archwiliwr Mewnol – cadarnhawyd hynny, gan na dderbyniwyd y pris cyn cyfarfod heno.

dd) **Cyfeirlyfr Charles Arnold Baker**

Derbyniwyd ateb oddi wrth y cyhoeddwr yn dweud fod y degfed argraffiad wedi gwerthu allan erbyn hyn – ni eglurwyd mai ceisio gwaredu'r argraffiad hwn oedd y bwriad cyn i'r unfed ar ddeg gael ei gyhoeddi ar Fedi 22ain. Pris hwnnw yw £103.00 + £7.00 cludiant – yr un fath â SLCC a NALC; penderfynwyd ei archebu, gan ei fod yn gyfeirlyfr hanfodol.

[Gadawodd Cyng. Catherine Ll. Morris y cyfarfod cyn trafod yr isod.]

10. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**

Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach am y siale/cwt yn Fronheulog, Lôn Garmon, nac am yr ymholiadau blaenorol a wnaed fisoedd yn ôl bellach – cysylltir â'r Adran eto.

b) **Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio**
Gofynnir dau gwestiwn (Yn ddelfrydol: 1. beth rydych chi yn ddymuno ei gael neu weld gan y Gwasanaeth Cynllunio? a 2. sut byddech am i ni ddarparu hyn i chi?) fel rhan o ymarferiad Ffordd Gwynedd o werthuso'r Gwasanaeth – angen ymateb erbyn dydd Gwener, Medi 14eg. Penderfynwyd ymateb â'r sylwadau hyn:

- gwrando arnom
- ateb gohebiaeth
- cysondeb
- defnyddio synnwyr cyffredin.

c) **Apêliadau Ceisiadau Cynllunio**

i) ***Maes Carafannau Pant Gwyn Cottage Caravan Park, Sarn Bach***
Ni dderbyniwyd dyfarniad.

ii) ***Tir ger Ty'n-y-Cae, Llangïan***
Derbyniwyd llythyr yn diolch am sylwadau'r Cyngor.

iii) ***28 Tan y Gaer, Aber-soch***
Derbyniwyd llythyr yn hysbysu yr apeliwyd yn erbyn y penderfyniad i wrthod y cais uchod ond, na ellid cyflwyno sylwadau oherwydd mai apêl deiliad tŷ ydyw. Adroddodd Cyng. Dewi W. Roberts y caniatawyd yr apêl – derbyniodd gopi o'r dyfarniad heddiw.

ch) **Cynefin – Stád Cornwall, Mynytho**
Deil Plot 2 ar ôl – gofynnwyd am wybodaeth sut i'w hysbysebu ymhellach; awgrymwyd *Llanw Llŷn* ac, efallai, *Y Ffynnon*, ynghyd â sôn wrth drigolion lleol.

d) **Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant**
Gwybodaeth am yr hyfforddiant a drefnir yn ystod y misoedd nesaf.

dd) **Tŷ Fforddiadwy yn Aber-soch**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth berchennog un o'r tai ym Mro Aber, yn gofyn os gellir trosglwyddo'r manylion i unrhyw un lleol sydd â diddordeb prynu tŷ fforddiadwy.

11. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
Cysylltwyd i ofyn pam na ddefnyddiwyd y peiriannau talu ar ôl eu gosod – derbyniwyd gwrthwynebiad i'r Gorchymyn yn ystod y cyfnod ymgynghorol. O ganlyniad, cysyllta'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad â'r gwrthwynebwr ac os na thynnir o'n ôl bydd rhaid mynd â'r mater o flaen Pwyllgor Ardal Dwyfor er mwyn i'r cynghorwyr benderfynu arno.

b) **Torri Gwair Ochr Ffordd**
Penderfynwyd anghofio am gynnig cydweithio, gan na dderbyniwyd cydnabyddiaeth nac ymateb o unrhyw fath oddi wrth y Gwasanaeth Bwrdeistrefol ers dros flwyddyn bellach, hyd yn oed â phroc oddi wrth Alun Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor.

c) **Rhaglen Waith mis Medi**

- Traenio ger Barrach, Llangïan.

ch) **Biniau Halen**

Llythyr yn gwahodd y Cyngor i ymuno â'r cynllun uchod – y gost fydd:

- llenwi pob bin ddechrau'r gaeaf – £40.00 y bin
- ail-lenwi bin ar gais y gymuned yn ystod y gaeaf rhwng Hydref 1af ac Ebrill 30ain – £60.00 y bin.

Penderfynwyd parhau â'r cynllun.

d) **Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991**

Copi o Rybuddion yr uchod ar gyfer hanner marathon Aber-soch a gynhelir ddydd Sadwrn, Medi 22ain – daw i rym rhwng 9.30 a 11.55 o'r gloch y bore.

12. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Torri'r Llwybrau**

Cwblhaodd y ddau gontractwr dorri'r llwybrau ond, ni dderbyniwyd eu hanfonebau.

b) **Tocio Coed ym Mynytho**

Derbyniwyd cais am ganiatâd i ScottishPower docio'r coed ar lwybrau cyhoeddus a thir – dim gwrthwynebiad.

13. **RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)**

Cafwyd sgwrs gan Nicholas Hancock, Swyddog Cyfreithiol SLCC, yn y gynhadledd yn Llandudno yr wythnos diwethaf. Pwysleisiodd y dylid mabwysiadu polisi sy'n egluro ei ymrwymiad i chwe egwyddor Diogelu Data.

14. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Cais am Dystiolaeth – Darparu Tai Drwy'r System Gynllunio***
Ymgynghoriad ar yr uchod.

ii) ***Bwletin misoedd Gorffennaf ac Awst***
Argraffwyd taflen NALC ar y Rheolau Sefydlog diwygiedig.

iii) ***Ymgynghoriad: Cefnogir a Hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r Cyd-destun Deddfwriaethol, Polsi ac Ehangach***
Angen sylwadau erbyn Medi 14eg.

iv) ***Cynigion ar gyfer Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol***
Copi o'r uchod a gynhelir yn Llanelwedd ddydd Sadwrn, Medi 29ain.

v) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Fe'i cynhelir heno – ymddiheurwyd oherwydd ein bod yn cyfarfod. Atodwyd copi Saesneg yn unig o adroddiad Panel Adolygu Cynghorau Cymuned a Thref – cwynir.

vi) ***Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru***
Hysbyseb y cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Cymru ei Adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer yr uchod i'r Gweinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet.

vii) ***Dyddiadau Hyfforddiant yn Llangefni***

Rhestr o'r hyfforddiant a gynhelir yn Llangefni yn ystod y misoedd nesaf – atodir copi â'r cofnodion i bawb er gwybodaeth.

b) **Geocache Porth Neigwl**
Cais am ganiatâd i osod Geocache ym mlwch ffôn Llanengan – gwrthodir oherwydd bwriedir gosod diffribiliwr y pentref ynddo cyn bo hir.

15. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/0423/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd yn ei le – Bryn Rhedyn, Bwlchtocyn **– Gwrthodwyd**
C18/0493/39/LL	Cais Diwygiedig i adeiladu estyniad a gwneud addasiadau yn cynnwys gosod ffenestri gromen **–** Hornblow Cottage, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0551/39/LL	Amrywio Amodau 6 a 7 ar Ganiatâd Cynllunio C11/1055/39/LL er mwyn diwygio cyfnod meddiannu gwyliau **–** Capel Bethlehem, Cilan – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0578/39/CC	Torri dwy goeden sydd yn destyn Gorchymyn Diogelu Coed – Plot ger Gorsebank, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C18/0582/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a ddifrodwyd gan dân a chodi un newydd yn ei le – Pant-y-Wennol, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0584/39/CC	Torri coeden **–** Min-y-Don, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0591/39/LL	Ffurfio decing i'r blaen **–** Wharfedale, Lôn Rhoslyn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0602/39/LL	Adeiladu porth i'r blaen **–** 2 Tan y Gaer, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0650/39/LL	Mân newidiadau i'r prif edrychiad, ailadeiladu strwythur 'lean to' i'r ochr, trosi modurdy i ffurfio rhan o'r tŷ ac ychwanegu ffenestr gromen at yr edrychiad cefn **–** Talfor, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0633/39/CT	Tocio coeden mewn Ardal Gadwraeth – Bodengan, Llanengan **– Caniatawyd yn ddi- amodol**
C18/0690/39/DA	Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio C17/0443/39/LL er gosod sgrîn wydr ar ben y wal gynnal blaen a mân newidiadau i osodiad y teras i'r gorllewin o'r eiddo – Pen y Cei, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

C18/0526/39/LL	Estyniad ac addasiadau – 4 Cae Du, Aber-soch

16. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Awst (Rh/S 002158) a Medi (Rh/S 002164) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Wicksteed Ltd. – £108.00 (Rh/S 002160 – Archwiliad Iechyd a Diogelwch y Caeau Chwarae)
b) Casglwr Trethi – £1.49 (Rh/S 0020153 – Talu Wrth Ennill)

c) Cyngor Gwynedd – £776.88 (Rh/S 002162 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
ch) Healthmatic Ltd. – £280.20 (Rh/S 002163 – Darnau i Beiriannau Talu'r Toiledau)
d) Healthmatic Ltd. – £90.00 (Rh/S 002165 – Darn i Ddrws Toiled y Dynion)
dd) Zurich Municipal – £724.85 (Rh/S 002166 – Yswiriant y Cyngor)
e) Cymdeithas y Clercod (SLCC) – £90.00 (Rh/S 002167 – Cynhadledd Cymru)
f) Casglwr Trethi – £19.73 (Rh/S 002168 – Talu Wrth Ennill)
ff) Elfyn Repair Service – £1800.00 (Rh/S 000061 – Torri Gwellt a Barbio Clawdd y Fynwent)

Derbyniadau

a) Toiledau – £843.75 (Tâl Mynediad – £70.20, £48.50, £16.00, £63.90, £41.70, £79.00, £115.60, £96.40, £70.20, £49.50, £50.45, £64.20, £59.80 a £18.30)
b) Mrs. Siân Goodman Jones – £16.00 (Rhent Cae'r Plwyf)
c) Cyngor Gwynedd – £25,000.00 (Ail daliad Praesept 2018 – 2019)

17. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Hydref 12fed, 2018 am saith o'r gloch